Awelon

Cyfres Llanbedr

TACHWEDD, 1926

Cyf. 26. Rhif 11.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd.

Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
FFORDD EURAID GAUTAMA.
Y FFARWEL.
TESTAMENT NEWYDD AWDURDODEDIG.
TAIR GWELEDIGAETH O ANGEU
Y MAES LLAFUR 1926—1927.
Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.
PRIODASAU. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy'y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd

Cyfres Llanbedr. TACHWEDD, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 11.

NODION Y GOLYGYDD.

NID wyf yn sicr yr awgryma "*Teimlad a Rheswm*" yn gywir a feddyliaf ond fe'u defnyddir am y tro oherwydd na wn i am eu gwell ar y foment. Mynnai y diweddar Dr. Thomas Rees yr "apeliai Protestaniaeth a Phiwritaniaeth yn bennaf at reswm a chydwybod ond cynhyrfodd yr adfywiadau Methodistaidd elfennau dyfnach a orweddasai ynghudd hyd hynny yn is-ymwybyddiaeth y genedl. * *

Teimlad a Rheswm.

Gwaith llawer haws a mwy digost a didrafferth yw adfywio teimlad na deffro cydwybod ac adfywio rheswm."

Y mae meddwl dyn fel pendil cloc, yn rhedeg yn barhaus o un eithaf i'r llall, o'r teimlad i'r rheswm ac o'r rheswm i'r teimlad. Rhoes gwyddor a Beirniadaeth Feiblaidd ergyd cryf i'r pendil yng nghyfeiriad rheswm, ond y mae yna le cryf i gredu fod y teimlad yn ei dynnu ers llawer dydd bellach. Pwy ddydd darllenwn fod pedair mil yn curo wrth ddrws Capel Westminster er clywed Dr. Campbell Morgan a heb fod nepell deil Dr. Dinsdale Young gynulleidfa o ryw dair mil sul ar ol sul. Gwyr y neb a wyr hanes y ddeuddyn hyn eu bod yn geidwadol i'r eithaf ac fel yr awgrymai'r "*Welsh Review*" dengys apel Dr. Horton at Dr. Campbell Morgan am iddo ddychwelyd, a llyfr Dr. Fosdick fod y llanw i gyfeiriad y "teimlad" oherwydd hwyrach ein bod ni wedi colli rhywbeth byw wrth ddilyn rheswm yn rhy gelfyddydol, a chredaf fod geiriau Dr. Fosdick yn awgrymiadol pan sylwa ar "awydd meddyliol wedi ymbriodi ag ysbrydolrwydd bâs."

"Symudwn yr hen ffurf-reolau ond beth a rown yn eu lle?"

"Cadwai'n teidiau eu hymdeimlad o'r agosrwydd dwyfol yn "gysegredig mewn angelion a oedd wrth law. Carient hwy "ddwfr bywiol profiad *real* mewn llestri dwfr hen ffashwn. Yna

"pan welodd eu plant mor hen ffashwn oeddent taflasant
"hwynt ymaith, y dwfr a chwbl ac yr ym ninnau'n awr yn hir-
"aethus yn gweld eisiau y dwfr a dywalltwyd."

"O'm rhan fy hun, buasai'n llawer gwell gennyf gredu mewn
"angelion a thrwy hynny gael y byd ysbrydol yn real ac agos
"na bod fel rhai o'r bobl *modern* yma sy'n byw mewn byd gwrthun
"o bethau cnawdol heb deimlo erioed mewn bywyd ar eu hen-
"eidiau unpeth tebig i 'gyffyrddiad adain angel.'"

Pair ei eiriau i ni feddwl o ddifrif—

"Collasom rywbeth gyda'r angelion coll."

O droi i mewn i gapel ac eglwys, teimlwn fod rhywbeth yn eisiau, rhywbeth ar goll. Y mae'r hen wresogrwydd a'r brwdfrydedd gynt wedi oeri a theimla'r galon eisiau ysbryd defosiwn a gweddi. Y mae eisiau i ninnau weddio gyda Phantycelyn—

"O Sancteiddia f'enaid, Arglwydd!
Ymhob nwyd ac ymhob dawn,
Rho egwyddor bur y nefoedd
Yn fy ysbryd llesg yn llawn."

Rhagor na hyd yn oed hynyna, y mae yna achwyn i'w glywed yn aml heddiw nad ydyw'r pregethu'n ddigon pendant, fod rhywbeth yn niwlog yn y ddysgeidiaeth a'r genadwri. Y mae tuedd ynom i ddibrisio ymdrech y teidiau oherwydd fod eu *consepshwn* yn gyfyng ond pwysleisient Egwyddorion crefydd. Nid oedd le i amheuaeth yn eu pregethu. Yr oeddent yn sicr, yn rhy sicr i'n tyb ni ar lawer pwnc ac argraffent y sicrwydd hwn ar feddwl a chalon eu gwrandawyr. Erbyn heddiw y mae'r cyfan wedi cyfnewid. Cerdd pob un a chamre petrus. Y mae ysbryd ymchwil wedi peri ffoi o'r sicrwydd a theimlir yn aml fod amheuaeth ym meddwl y pregethwr. Y mae mor ochelgar nes troi o'r cyfan yn amau. Wrth feirniadu'r Beibl cred llawer y rhoir dwylo halogedig arno ac amheuant y farn oherwydd torri ohoni ar draws eu hopiniynau hwy. Nid wyf yn sicr ychwaith nad oes duedd ynom i dynnu gormod o sylw at ein dysg fel pe buasai seryddwr yn galw sylw byth a beunydd at ei deliscope ar draul anghofio dywedyd beth a wel? Ni ddywedaf fod eisiau'r pendantrwydd gynt arnom heddiw ond credaf na ddylasem bregethu ond a gredwn a'n holl enaid. Nid lle mo'r pwlpud i wneuthur *experiment* ond cyfle i'r gonest ei farn a sicr ei brofiad ddywedyd am y byd anweledig a dyna sydd angen heddiw ys dywedai rhywun "pregethu fel dyn ar farw wrth ddynion ar farw," cael y *ring* wir a sicr yn ol i'n pregethu, ac argyhoeddi'n hunain er bod yn barod i argyhoeddi'r byd; gadael y niwl a'r amheuon a chadw gafael sicr yn Nuw a byd yr ysbryd.

FFORDD EURAID GAUTAMA.

Ganwyd Gautama, neu fel yr adnabyddir ef yn gyffredin, y Bwda, yn y chwechfed ganrif cyn Crist. Cydnabyddir ef fel sylfaenydd un o brif grefyddau'r byd. Blinid yr Indiaid, y genedl y perthynai iddi, yn fawr yr amser hwnnw gan y meddwl ei bod yn bosibl i ddyn gael ei eni i'r byd hwn mewn rhyw ffurf neu gilydd dro ar ol tro a bod ei dynged yn y presennol yn dibynnu yn hollol ar yr hyn oedd ei gymeriad yn y bywyd blaenorol. Fel y darfu iddo hau mewn un bywyd felly yn gywir yr oedd yn rhaid iddo fedi mewn bywyd arall. Yn wyneb hyn ei brif awydd oedd cael rhyddhad oddiwrth olwyn ragordeiniedig bywyd Hawliai Gautama ei fod, ar ol hir ymchwil, wedi cael gafael am yr unig wir ddihangfa, ac fel Iesu danfonodd ei ddisgyblion i ledaenu ei efengyl ar hyd a lled y wlad. Dysgid fod yna bedwar prif wirionedd y gellid edrych arnynt gyda sicrwydd. Yn gyntaf, fod dioddefaint yn brofiad cyffredin: Nad oes un ohonom yn hollol rydd oddiwrtho—Genedigaeth, henaint, marwolaeth; cysylltiad a'r annymunol, ysgariad oddiwrth y dymunol; methiant i gyrraedd at yr hyn yr awyddwn am dano; yn fyr, holl brofiad tymhorol dyn—golyga'r oll ryw fesur o ddioddefaint.

Y sicrwydd nesaf ddysgir yw achos y cyfryw brofiad. Y mae hwn yn gynwysedig yn y syched a'r chwant sydd ynom. Arweinia hyn o enedigaeth i enedigaeth megis ag y mae un fflam yn ennyn fflam arall. Felly fel sicrwydd pellach rhaid sylweddoli na fedr dim ein achub ni rhag dioddefaint yn fyr o ladd y blys sydd ynom, nid yn unig am bleser, ond hyd yn oed am fodolaeth. Yn olaf ceir y sicrwydd mai'r unig ffordd i gyrraedd at y nod hon yw cadw yn ffyddlon ar y llwybr euraid neu wythplyg fel y'i gelwir.

1.—Credu yn iawn. Nid credo yn ystyr arferol y gair a geir yma. Yr hyn olygir yw derbyn y pedwar sicrwydd y soniwyd am danynt, ac hefyd fod y Bwda ei hun fel awdur a pherffeithydd y ffydd eisioes wedi ennill buddugoliaeth ar y byd.

2.—Penderfynu yn iawn. Rhaid gosod o'r neilldu holl bleserau'r corff. Nid iawn yw cashau neb na gwneuthur niwed i unrhyw greadur.

3.—Siarad yn iawn. Nid gweddus yw dwedyd anwiredd na siarad yn amharchus am neb yn enwedig yn ei absenoldeb.

4.—Cymeriad iawn. Golyga hyn gadw'r fuchedd yn lan ac yn weddaidd. Nid iawn yw dinystrio bywyd a rhaid peidio derbyn dim nad yw yn ddyledus i ni na bod yn euog o unrhyw amhurdeb.

5.—Bywioliaeth iawn. Ni ddylai dyn ymgymryd ag unrhyw orchwyl nad yw o fudd i'r ddynoliaeth yn gyffredin.

6.—Ymdrech iawn. Rhaid i ddyn fod ar ei oreu bob amser i ddileu'r drwg a meithrin y da, y pur a'r prydferth.

7.—Meddyliau iawn. Y meddwl yw tarddle gweithredoedd ac i'r olaf i fod yn rinweddol rhaid i'r cyntaf fod yn lan ac yn glir.

8.—Dyhead iawn. Codir yma i dir yr ysbryd a rhaid gofalu bob amser fod hwn yn rhydd oddiwrth bob amherffeithrwydd.

Fel ychwanegiad at y llwybr wythplyg ceir fod yn nysgeidiaeth y Bwda ddeg gorchymyn. Amcenir y pump cyntaf ar gyfer y lliaws a'r pump olaf yn fwyaf neilldu ol ar gyfer y disgyblion. Gosodant i lawr na ddylid lladd; lladrata; godinebu; dweyd anwiredd; meddwi; bwyta gormod yn y prynhawn; myned i bleserdai; gwisgo dillad neu addurniadau anweddaidd; gorwedd ar welyau costus ac esmwyth; derbyn aur ac arian.

Hawdd yw gweled y gellid gosod nifer o'r rhai hyn ochr yn ochr a'r gorchymynion geir yn yr Hen Destament ac nad yw dysgeidiaeth y Bwda fel cyfangorff allan o gydgord

a sylwedd ac ysbryd efengyl Crist. Ond i osgoi camddealltwriaeth dylid galw sylw at un gwahaniaeth. Gesyd Iesu o'n blaen fel gwobr neu ffrwyth ein ffyddlondeb i'w eiriau fynediad i fewn i Deyrnas Nefoedd. Dianghenraid yw gofyn yn y cysylltiad hwn beth olygir wrth hyn. Digon yw gwybod fod yna fywyd helaethach yn ein haros ond i ni wneuthur y defnydd priodol o'r bywyd presennol. Mewn perthynas i ddysgeidiaeth y Bwda ceir llawer o anghutundeb. Dywed rhai na chredai yn yr enaid fel sylwedd annibynnol ac fel canlyniad nad oedd ganddo obaith am anfarwoldeb. Deil eraill fod hyn yn anghywir. Nid gosod terfyn ar fodolaeth dyn yn gyfangwbl oedd amcan y Bwda ond yn hytrach ein rhyddhau oddiwrth y cysylltiadau sydd yn tueddu ein cadw yn garcharorion i'r hyn sydd yn dymhorol a gweledig. Beth bynnag am hyn rhaid cydnabod fod yna lawer o brydferthwch moesol ac ysbrydol yn perthyn i ddysgeidiaeth proffwyd mawr yr Indiaid a'i fod yn rhinwedd ei eiriau a'i weithredoedd yn deilwng o le blaenllaw ymhlith dysgawdwyr mwyaf y byd.

J. Park Davies.

Y FFARWEL.

Dyma fi heno ym mreichiau fy nghadair. Clyd yw'r ystafell, a chynnes yw'r tân coch. Oddiallan mae'r gwynt yn uchel, a'i ruthr yn gryf. I'r dyffryn islaw daw'r rhew i gloi y nant. Disgyn yr eira gan roi byd gwyn i bob bod gwan. Garw yw'r hin heno. Pa sawl plentyn i anffawd sydd allan rhwng ei dannedd? Gwaetha'r modd,—llawer mae'n debig. O fyd angharedig! Onid oes gennyt gartref i'r crwydryn blin? A yw dy gyfoeth yn rhy brin i'w lochesu? Hwyrach hefyd fod gormod o ol gwaed gwirion arno i noddi nebun. Pa sawl ysgwydd heno a orlethir gan bwysau o ofid blin? Pa sawl calon sydd yn ddwy oherwydd na cheir dwy yn un? Beth yw nifer plant cyni a'u croesau afrifed?

Lle creulon yw'r groesffordd. Mae gobaith wedi ei gladdu yno gan ddwylo erch. Mae'r awel oer wrth gwynfan yn yr angladd wedi rhewi'r dagrau ar y gruddiau cochaf. Ni cheir pelydr lloer i lonni'r llawr. Ymguddia'r seren tan sorriant y cymylau.

Lle unig yw'r groesffordd. Ni ddaw car na chyfaill i aros yn hir. Mae pawb mewn brys, a bras yw eu camau wrth ganu'n iach. Ni pherthyn i'r teithiwr ei hamdden i wrando cwyn y blin. Rhaid dirwyn ymlaen. Pell yw rhith o gysur, a chilia cyd-ymdeimlad gyda'r awel.

Nid unigrwydd a geir ymhob unigedd. Mae ambell lecyn unig yn llawn o fendithion. Ond creulon yw unigrwydd y groesffordd i'r un sy'n chwilio cysur yn ei adfyd. Mae gormod o fynd yno ar bawb a phopeth Nid oes gan nebun air i falmu clwyf.

Yr wyf innau tan fy mriw. Safaf ar y groesffordd, a chariad a gras yn mynd i ffwrdd oddiwrthyf. Mewn niwl collaf un a fu'n gwmni imi drwy lawer storm flin. Ar gyfrif amgylchiadau celyd daeth yr awr inni ymadael. Ni feddyliais erioed mai hyn fuasai cynllun ffawd.

Aeth hi ar ei hunion i'r dde, a llwybreiddiaf innau i'r aswy. Rhaid imi bellach wynebu'r dyfodol heb ei gwên a'i chwmni. Dyna'r ddyfarniad. A'm tynged innau yw dargan-fod cwmni arall.

Na omedder imi orig i ganu ei chlodydd i'w chysgod sy'n araf gilio i fynwes y nôs. Mae'r achlysur hwyrach yn gyfle i adolygu ein taith.

Gwelaf y tro cyntaf y daethost i'm sylw. Rhaid imi gyfaddef, wrth gofio, mai argraff wael a wnaethost arnaf y pryd hwnnw. Ond, mae gan amser allu i gyfnewid barn a syniad. A wyt ti'n cofio'r tro cyntaf hwnnw pan ddygais di i ganol gallt o goed trwchus ? Ti'm gwelaist mewn braw yn ofni dynesiad rhywun. O awr fy niniweitrwydd ! Onid oeddit ar fy ngwefus ? A dyna fu'r achos o'n cweryl. Buost angharedig wrthyf nes imi glafychu tan dy ddyrnod. Poenus fu dy driniaeth ohonof, a minnau'n gweiddi am fedd yn hytrach na rhagor o boen. Gadewais di, a thrwch o gynddaredd ar fy ysbryd. Tyngais, do tyngais ar bob llw na chawset byth mwyach dy gyfle i'm hudo. Gwan yw dyn, a felly finnau. Daeth tro ar fyd, a newid ar gyflwr fy meddwl. Maddeuais iti'r cyfan, a chawsom eto gwrdd. Y waith hon mi'th welais ar bompren yng ngoleu'r lleuad mewn man anhygyrch.

Waeth imi gyfaddef y gwir, awyddais fwy-fwy am dy gwmni. Y diwedd fu inni lynu'n ffyddlon wrth ein gilydd am rai blynyddoedd. Gwelaist fi yn oriau fy methiant, a chalonogaist fi. Bu llwyddiant ar fy llwybrau, a chyd-ddawnsiaist a mi. Dywedais wrthyt gynnwys fy nghalon, a rhoddaist wrandawiad astud ar bob achlysur. Pan gefnai pawb arall arnaf, arhosaist di wrth fy ymyl i'm diddanu. Mi gofiaf yn dda dy eiddigedd brwd pan glywaist fod gelyn didostur ar fy ngwarthaf. Briw oedd fy nghalon, ond ti a rwymaist fy archoll.

Sylweddolais fod cynlluniau bywyd yn torri, a breuddwydion gwynion yn trengu, er hynny, parhau i ddylifo wnai dy ffyddlondeb di. Bum a'm llogell yn wag, eithr ti a'm diddenaist yn fy nghyni. Tylawd oedd fy adnoddau i, a chyfoethog oedd dy gydymdeimlad di.

A mi yng nghrafanc siom, cofiaf yn dda amdanat yn codi imi mewn awyr las lawer castell cain. Erbyn hyn yr wyf yn byw yn ambell un ohonynt. Ddangosodd neb fwy o ffydd yn fy ngallu na thi. Credaist yng ngwaelod dy galon mai cawr oeddwn, ac ymegniais innau. Gwyn fyd dy edmygedd ohonof !

Cefais di am oriau yn fy ystafell yn gyfaill cynnes, er iti weithiau anghytuno a mi. Pan ddiferet dy gynnwys o'th galon, yna deuai gwg i'm llygad. Ceisiais ddiffodd dy wres pan fyddai galw am hynny. Ond, ba waeth ? Ni ffromet ! Ber fu taith dy eiddigedd bob tro. Pe mynnai, medrai'r gadair freichiau hon ddweyd llawer stori am danat ti a fi yn mwynhau'r gwyll yn fy ystafell. Fy nghysur heno yw mai mud yw honno weithian. Addawodd gadw'r cyfrinachau tan fore ffair niwl.

Mae'n wir i mam geisio fy narbwyllo droion i'th roddi heibio, ond ni wrandewais ar ei geiriau. Maddeued hi fy anufudd-dod iddi ar gyfrif fy nghariad atat ti. Dywedodd llawer cybydd wrthyf mai drud oedd dy ddilyn. Bum fyddar i sylwadau o'r fath. Parchaf yr henwr hwnnw a'm hysbysodd fod perigl o'th ddilyn. Cyhoeddodd un dirwestwr pybyr mai fy arwain i'r dafarn a wnaet yn y diwedd.

Er cymaint yw'th elynion, eto i gyd yr wyf wedi tynnu llawer o gysur ohonot. Yn wir, mynegodd rhywun wrthyf, pwy ddydd, ein bod gymaint o gyfeillion nes iti adael llawer o'th arogl arnaf. Wn i ddim a yw hynny'n gywir ai peidio. Dywedaf hyn, cefais flas digymar yn dy gwmni, a thithau'n dyner ar fy ngwefus.

Chwareu teg iti. Dyweded gelynion fel y mynnont, er mai awr y ffarwel yw hi, tystiolaethaf i'th rinweddau.

Hyd yn hyn, gwn na ddwedaist ddrygair i'm herbyn. Yr wyt yn hyawdl yn fy wyneb, ac yn ddistaw pan fyddwyf bell oddiwrthyt. Ni ddaethost erioed ataf i fenthyca ceiniog goch. Mae'n wir imi wario arian arnat, ond na chyhoedder hynny ar bennau'r tai.

Ni wnaethost unwaith ddannod imi fy ffaeleddau. Pwy, ysywaeth, wyr yn well na thi y newidiaf fy hwyliau yn fynych ? Cofi imi wrthod dy sylw'n bendant am wythnos, beth amser yn ol. Ni ffromaist, eithr yn hytrach plennaist ar fyr dy gusan maddeuant ar fy ngwefus welw.

Dyma ni ar y groesffordd. Rhaid yw ymwahanu. Os gwelaf di eto, eiddo arall a fyddi. Paid a disgwyl imi dy gusanu byth mwy. Mae gennyf un arall yn dy le.

Weithian — FFARWEL — FY MHIBELL HOFF.

J. Seymour Rees.

TESTAMENT NEWYDD AWDURDODEDIG.

Perthynai i Eglwys y ganrif gyntaf fwy o lenyddiaeth nag a geir yn ein Testament Newydd. Y mae'r llenyddiaeth a geir yn ddistaw ar lawer o ffeithiau pwysig. Ni ddaeth i lawr un casgliad o'r emynau a arferid yn y gwasanaethau crefyddol er y cyfeirir at y rhain mewn llawer man. Gweler Colosiaid 3 : 16 ; Ephesiaid 5 ; 19. Gwelir hefyd o ddarllen Epistolau Paul lawer cyfeiriad at Epistolau o'i eiddo sy' heddiw ar goll. Gweler I Corinthiaid 5 : 9. Nid oes ar gadw un llythyr oddiwrth yr Eglwys i'r Apostol. Gweler I Corinthiaid 7 : 1. Byddai'n dda gennym gael hanes llawnach o ledaenu'r Efengyl yn yr Ymerodraeth Rufeinig. Yn nhraddodiadau'r Eglwys ceir llawer o enwau pwysig, ond nid oes gofnod o'u gweithredoedd yn aros. Yr oedd angen disgyblu'r troedigion o Baganiaeth a rhoddi iddynt reswm am y ffydd a oedd ynddynt. Ceir ffurf-weddiau a hyfforddiadau i'r cyfeiriad hwn mewn gwaith a briodolir i ddechreu'r ail ganrif—Dysgeidiaeth y Deuddeg Disgybl—ond y mae'r Testament Newydd yn ddistaw.

Darnau hynaf y Testament Newydd yw Epistolau Paul. Gwneir eithriad o'r Epistol at yr Hebreaid. Nid Paul a'i hysgrifennodd, ac amhosibl penderfynu awduraeth yr Epistolau bugeiliol (I a'r II Timotheus a Thitus). Wedyn yr ysgrifennwyd yr Efengylau, Actau'r Apostolion, a Datguddiad Ioan y Gweledydd. Anodd dyddio'r rhannau ereill. Perthynant i wahanol fudiadau yn yr Eglwys, ac yn eu ffurf bresennol y mae rhai yn ddiweddar iawn.

Pa fodd y tarddodd y syniad o Destament Newydd ? Un ynghanol llawer o grefyddau a geisiai sylw byd yr Ymerodraeth Rufeinig oedd Cristionogaeth, ac felly yn gynnar daeth dysgeidiaeth yr Eglwys fore dan ddylanwad mudiadau dieithr. Y pennaf o'r rhain oedd y mudiad Gnosticaidd. Mudiad dwyreiniol ydoedd, a'i athrawiaethau sylfaenol yn seiliedg ar athrawiaeth Persia. Gorliwiwyd yr athrawiaethau hyn a syniadau Cristionogol, ac yn fuan yr oedd Cristionogaeth Nosticaidd yn gymaint ei hapel a Christionogaeth Apostolaidd. Gweler y cyfeiriadau at heresiau Gnosticaidd a geir yn Colosiaid 2 : 4, 8 ; I Timotheus 1 : 4 ; a cheir dylanwad y mudiad yn glir ar feddwl awdur y bedwaredd Efengyl. Er ysgrifennu ohono (tua 95 o.c. yn ol y dyb ddiweddaraf) yn erbyn haeriadau pennaf y mudiad dengys er hynny lawer o gydymdeimlad a'i athrawiaethau, a thua diwedd yr ail ganrif maentumiai llawer o ysgolheigion darddu o'r Efengyl o ffynhonnell Nosticaidd. Seilir hyn ar olygiadau neilltuol yr awdur. Dyry ystyr Nosticaidd i eiriau fel "bywyd," "goleuni," "gwybodaeth" a "chariad." Mor ddwfn ydoedd dylanwad y mudiad ar ei feddwl !

Gwahaniaethai systemau gwahanol arweinwyr y mudiad yn fawr, ond dalient yn gyffredinol fod mater yn hanfodol ddrwg. Felly nid creadigaeth y Duw Goruchaf mo'r byd, a phwrpas y Crist—cennad y Duw Da —oedd gwaredu dyn o afael y Gallu israddol a greodd y byd. Dalient hefyd nad oedd i'r Crist gorff o gig

a gwaed. Lledrith ydoedd, ac ymddangosiadol yn unig ydoedd ei ddioddefaint ar y groes. Gwrthwynebir y syniad hwn gan awdur y bedwaredd Efengyl pan ddywed i un o'r milwyr wanu ei ystlys ef a gwaywffon, ac yn y fan daeth allan waed a dwfr." Ni chyfeirir at hyn yn un o'r Efengylau ereill.

Oherwydd cynhyddu o apel Gnosticiaeth yn yr ail ganrif gorfu i'r Eglwys wahaniaethu rhwng y llyfrau a ellid eu darllen a'r llyfrau na ellid eu darllen fel awdurdodau dros yr athrawiaeth Apostolaidd.

Ffigwr pwysig yn hanes yr Eglwys yn y cyfnod hwn oedd Marcion. Nid oedd mewn cydymdeimlad hollol a syniadau Gnosticiaeth er sylfaenu ohono ei gred ar y pennaf o athrawiaethau'r mudiad. Dywed hanes iddo ddyfod i Rufain tua o.c. 139, a chymunodd yn yr Eglwys yno bedair blynedd. Wedi iddo fethu a throi'r Eglwys i'w syniadau neilltuol sylfaenodd yno Eglwys ei hun. Yn ol pob tebig aeth trwy "ystormydd ysbrydol "fel eiddo'r Apostol, ac fel yntau dyfnhawyd ei brofiad o "rad ras Duw yng Nghrist." Daliai Marcion, yn wahanol i'r Apostol, wrthgyferbyniad rhwng y Gyfraith a'r Efengyl—edrychai'r Apostol ar y Gyfraith fel "ysgolfeistr" yn ein dwyn i Grist. Derbyniodd Marcion oddiwrth Nosticiaeth y syniad fod ddau Dduw yn bodoli. Gwrthododd yr Hen Destament oherwydd mai datguddiad a geir ynddo o Greawdwr y byd pechadurus hwn "—y gwaelaf o'r ddau Dduw. Ceir datguddiad o'r Duw Da—Gwaredwr y ddynoliaeth—gyntaf yng Nghrist. Methodd y disgyblion a deall hyn, a rhoddwyd y datguddiad i Baul. Felly ceir y datguddiad newydd a wnaethpwyd yng Nghrist yn yr Epistolau ac yn Efengyl Luc yn ol Marcion, ond rhaid torri allan bob dyfyniad o'r Hen Destament fel gwaith y Cristionogion—Iddewig. Gosododd Marcion ei Destament Newydd awdurdodedig ger bron yr Eglwys, a gorfu i'r Eglwys hithau ateb drwy awdurdodi casgliad o'r ysgrifau a dderbynid ganddi fel gwaith yr Apostolion.

Cyn ennill lle yn y casgliad newydd rhaid fod dylanwad yr ysgrifau yn fawr, a theifl llythyr Clement o Rufain (tua o.c. 96) lawer o oleuni ar y mater. Cymer yr awdur ei ddiwinyddiaeth o'r Epistol at yr Hebreaid, a difynna ddarnau o'r Epistolau at y Rhufeiniaid a'r I. Corinthiaid gan edrych arnynt fel clasuron, ond yn ei amser ef yr Hen Destament yn unig a gyfrifid fel *ysgrythur ysbrydoledig*.

Diddorol ydyw hanes ffurfio'r Testament Newydd. Cymherodd hyn genhedlaethau i'w wneuthur. Pa ysgrifau a ddaeth o law'r Apostolion ? Anodd dweyd a ellir gosod y llyfr hwn a'r llyfr arall ar y rhestr. Bu amheuaeth ym meddwl yr Eglwys erioed ynghylch awduraeth yr Epistol at yr Hebreaid, ond cafodd le yn y rhestr ar y dyb gyfeiliornus mai eiddo Paul ydoedd. Dyna hefyd fu hanes Datguddiad Ioan. Credid mai gwaith yr Apostol ydoedd.

O ddilyn hanes yr Efengylau gwelir iddynt ennill y safle o *ysgrythur ysbrydoledig* tua 180 o.c.

Gwyddis i Theophilus o *Antiochia* ysgrifennu esboniad ar y pedair Efengyl yr adeg honno, ac mewn gwaith arall o'i eiddo difynna ddarnau o'r bedwaredd efengyl fel "ysgrythyr ysbrydoledig" o waith Ioan. Ceir fod yr un syniad gan Eglwysi *Rhufain* ac *Ephesus* oddiwrth dystiolaeth Irenaeus (tua 185 o.c.).

Pontypridd. J. D. Jones.

TAIR GWELEDIGAETH O ANGEU.

Tybir y medrir cadw Angeu draw o beidio sôn am dano ond nid yw hyn ond tyb ffol. Dyma destun hynaf llên a myn Morgan Llwyd nad yw ond "cennad oddiwrth fy nhad i'm dwyn i adref allan o yscol y byd hwn fel allan o garchar y cnawd." Er ei fod yn destun oer, credaf fod ein hanwybodaeth yn lliwio'n dduach nag y gwyr a rhoddaf "dair gweledigaeth o angeu" oherwydd gwyr pob un wirionedd geiriau Maredydd ab Rhys,—

"Dyn pe cyn gryfed a dau
Digyngor y dwg angau."

I.

Mewn hen lawysgrif tua hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg a elwir Llyfr Ancr Llanddewibrefi fe geir gweledigaeth Angeu dan y teitl Breuddwyd Paul Apostol. Y mae'r disgrifiad o Uffern y canol oesoedd yn frawychus. "Ac yna Pawl a welodd ger bron pyrth uffern dderi tanllyd, ac wrth eu cangau bechaduriaid ynghrog. * * Ac yna y gwelodd Pawl yn lle arall ffwrn yn llosgi a saith fflam amliw yn cyfodi ohoni a llawer yn poeni ynddi . . . . rhai ohonynt yn wylo; ereill yn udo; ereill yn cwyno; ereill yn ceisio eu hangeu ac nis ceffynt * * Yno mae rhod o dân a mil o yrdd arni a diefyl a'i try unwaith beunydd ac ar bob gwaith y llosgid mil o eneidiau. Oddiyna y gwelodd Pawl afon aruthr yn llawn o bryfed cythreulig megis pysgod yn y mor yn llyncu eneidiau pechaduriaid megis bleiddiaid yn llyncu defaid. Ac ar yr afon honno yr oedd pont yr ae yr eneidiau cyfiawn iddi yn ddidramgwydd ac eneidiau y pechaduriaid a syrthiai ynddi. * * a phawb a gerddai i'r bont honno yn ol ei haeddiant. * * Oddiyna y gwelai ef angelion yn dwyn enaid mynach gwyn o'i gorff ac yn ei anfon i'r nef, ac yna y clywai Pawl lef mil o filoedd o angelion yn llawenhau wrtho, ac yn dywedyd "O Enaid dedwyddaf. Bydd lawen heddiw can gwnaethost ewyllys Duw": ac yna dyrchafel yr enaid ger bron Duw i ddarllain ei weithredoedd da a wnaethpwyd." * * * "Cred di, Bawl, fel y gwnel dyn yn y byd yma y caiff ef ar ol llaw."

* * *

Ar waethaf y poenydio a'r wylo a'r udo y mae dyn yn teimlo fod gwŷr y bedwaredd ganrif ar ddeg fel ninnau wedi deall y gyfraith foesol,—"Yr hyn a hauo dyn hynny hefyd a fed efe."

* * *

II.

Ymhen rhyw dri chant a hanner a flynyddoedd yn 1703 cyhoeddwyd "Gweledigaethau y Bardd Cwsg" o waith Ellis Wynne o'r Las Ynys ger Harlech. Gwyr y cyfarwydd iddo fenthyca llawer yn enwedig oddiar yr Ysbaenwr Quevedo. Yr oedd gweledigaethau'r Ysbaenwr wedi'u troi i'r Saesneg rhyw ddeng mlynedd ar hugain cyn ysgrifennu o Ellis Wynne ei weledigaethau ef ac er iddo fenthyca rhyw "ddegwm go dda" fel y dywedir, rhydd inni ddarlun byw a chlir o fywyd y Cymro tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, a dyma'i Weledigaeth o Angeu.

"Atolwg, Syr," ebr fi, "p'le yw'r fangre hon?"

"Stafelloedd Angeu," ebr Cwsg. Ni ches i ond gofyn, na chlywn i rai'n crio, rhai'n griddfan, rhai'n ochain, rhai'n ymleferydd, rhai'n dal i duchan yn llesg, eraill mewn llafur mawr, a phob arwyddion ymadawiad dyn, ac ambell un ar ei ebwch mawr yn tewi, a chwap ar hynny, clywn droi agoriad mewn clo: minneu a drois wrth y swn i sbio am y drws, ac o hir graffu, gwelwn fyrdd fyrddiwn o ddrysau'n edrych ymhell, ac er hynny yn f'ymyl. "Yn rhodd, Meistr Cwsg," ebr fi, "i ba le mae'r drysau

yma'n agor?" "Maent yn agor," ebr yntau, "i Dir Ango, gwlad fawr dan lywodraeth fy mrawd, yr Angeu".

Ond cyn imi edrych ychwaneg o'r aneirif ddrysau hynny, clywn lais yn peri i minneu wrth fy enw ymddatod. Ar y gair mi'm clywn yn dechreu toddi fel caseg eira yng ngwres yr haul; yna rhoes fy Meistr i mi ryw ddiod—gwsg fel yr hunais, ond erbyn i mi ddeffro f'a'm dygasai i rywffordd allan o bellter y tu arall i'r Gaer; mi'n gwelwn mewn dyffryn pygddu anferdrol o gwmpas ac i'm tyb i nid oedd diben arno. Ac ymhen ennyd wrth ambell oleuni glas fel cannwyll ar ddiffodd mi welwn aneirif, O! aneirif o gysgodion dynion, rhai ar draed, a rhai ar feirch yn gwau trwy ei gilydd fel y gwynt, yn ddistaw ac yn ddirifol aruthr.

Ar hyn, dyma angeu bach, yn gofyn i ni fy enw, ac yn peri i Meistr Cwsg fy nwyn i'n ebrwydd ger bron y Brenin * * Ar ei law ddeheu yr oedd Tynged yn eiste ac â golwg ddu ddel yn darllen anferth Lyfr oedd o'i flen. Ac ar y llaw aswy'r oedd hendyn a elwid Amser, yn dylifo aneirif o edafedd aur ac, edafedd arian, a chopr, a haearn lawer iawn, a ambell edau'n prifio'n well at ei dwedd a myrddiwn yn prifio'n waeth hyd yr edafedd yr oedd oriau, dwrnodau a blynyddoedd; a Thynged wrth ei lyfr yn torri'r edafedd einioes ac yn agor drysau'r wal defyn rhwng y ddau fyd."

"Nid oeddwn ond ysbio o hirbell, eto mi a welais fwy o erchylltod arswydus, nag a fedra'i 'rwan ei draethu, nac a fedrs i'r pryd hynny ei oddef; canys, ymdrechodd a dychlamodd f'ysbryd gan y ddirfawr ddychryn, ac ymorchestodd mor egniol, oni thorrodd hll gloion Cwsg, a dychwelodd f'enaid i'w chynefin swyddeu. A bu lawer iawn genni 'ngweled fy hun eto mysg y rhai byw; a bwriedais fyw hll-well, gan fod yn esmwythach gen gan mlynedd o gystudd yn llwybra sancteiddrwydd, na gorfod gweled p arall ar erchylltod y noson honno.

* * *

III.

Wedi tremio ar Lyfr Ancr a Gweledigaeth y Bardd Cwsg cefais ddarlun arall o angeu a darlun llawn mor real, er nas rhoddwyd o'r blaen mewn geiriau. Cafwyd y weledigaeth ryw hanner can mlynedd yn ol a medr yr un a'i cafodd ei darlunio heno lawn cystal a thrannoeth. Yr oedd y braw cymaint fel na ddaeth ati ei hun am dridiau. Ni wnaf i ond ceisio dal yr hud gan ei hysgrifennu fel y'i darlunid imi:—

"A mi gartref slawer dydd, yn noswylio un noson, ac wedi diffodd y gannwyll, teimlwn ei bod yn tywyllu arnaf, rhywbeth yn debig a phe bawn mewn llewyg, ond heb fod felly. Gwelwn fy hun ynghanol rhyw belen lâs a doi'r cyfan yn oleu. Clywn swn ochain torcalonnus, cwyno truenus ac wylo dolefus fel cri calonnau'n torri mewn braw ac anobaith. Yn y man gwelwn dorf ddiddiwedd o bobl na ellid eu rhifo a minnau yn eu plith yn tynnu at ben heol neu enau ystryd lydan lydan heb dy na dim—ond heol drwy ganol y tywyllwch. Yr oedd un ochr neu ran o'r heol yn uwch a goleuach na'r ochr arall. Ar ben yr heol ymrannai'r dorf yn ddwy ran yn cyfateb i ddwy ochr yr heol, yr is a'r uwch a gwelwn yn awr fod yr wylofain yn dod o'r ochr is. Nid oedd ddewis ochr yno. Ae pobun i'w ochr ei hun fel wrth raid ac unwaith y deuid i'r heol nid oedd troi. Yr oedd y dorf ddeuran yn mynd, mynd. Nid oedd yma na brysio nac aros ond rhyw un mynd gwastad. Arweiniai un ochr i'r heol at lan yr afon ddu, cyn ddued ag inc a'i thonnau du yn rholio'n ol a blaen yn berffaith ddistaw. Torrai goleu gwyn ar yr afon ddu ac ni chlywid ond sgrechfeydd annaeraol pan syrthid i'r dwfr pygddu. Caeai'r llif am danynt ac nid oeddent mwy. Arweiniai ochr arall yr heol at bont oedd yn croesi'r afon. Cerddai pob un a oedd ar lwybr y bont yn hapus yn y goleu i fro'r goleuni'r ochr draw, a gwelid y fintai'n teithio 'mlaen wedi cyrraedd yno.

"Disgleiriai goleu disgleiriach nag a welais cynt nac wedyn ar y bont a gofynnais i rywun yn ei wyn ar ffurf dyn o ble y doi'r goleu. Tybiais i mi ei glywed yn dywedyd "*Jasper*," ond nid wyf yn sicr. Rywsut euthum allan o'r llanw ac oedais ennyd ar y bont gan edrych ar yr afon ddu. Gwelais wyneb dau gydnabod, dau *rodney* yn dod at lan yr afon ac yn suddo i'r dwr pygddu. O'u gweled rhoddais ysgrech oer ac annaearol nes deffro pawb yn y ty. Rhuthrodd pawb ar eu hunion i'm hystafell ac ymhen amser medrais adrodd a welais gan enwi'r ddeuddyn cyn suddo i anghofrwydd eilwaith i aros felly am dridiau." * * * *

"Y mae'n anodd i chwi goelio'r weledigaeth," meddai a rhyw amheuaeth yn ei llais. Ni ddywedais ddim. "Y mae un peth yn sicr," ychwanegai, "bu'r ddeuddyn a welais farw o angeu disyfyd y noson honno. Aeth un dan y tren a bu'r llall farw wedi damwain."

Ni ddywedais ddim. Nid œdd gennyf ddim i'w ddywedyd wrth gwyddwn ei bod hi yn dywedyd y gwir, a gwyddwn ragor, gwyddwn y cawn gyfarfod ag angeu'i hun ryw ddydd wyneb yn wyneb.

Y MAES LLAFUR 1926—1927.

Safonau III a IV—Trydedd Daith Paul (Actau XVIII, 23—XXI, 17.)

Gwers VII.—Paul a'r Eglwys yn Ephesus (Actau XX, 1—38.)

PARHAD o'r daith yn ol i Ierusalem. Er gochelyd colli amser trwy ymweld ag Ephesus, danfonodd Paul gennad at henuriaid yr Eglwys i ddod ato ym Miletus. Wedi dyfod o honynt ato, llefarodd wrthynt. Darllener ei anerchiad yn fanwl, a meistroler ei chynnwys. Sylwer ar a ganlyn:

(1) Dwg ar gof iddynt y "llawer o ddrygau a phrofedigaethau" a ddioddefodd oddiar law'r Iddewon tra fu gyda hwynt yn Ephesus (18, 19). (2) Amlyga inni'r ysbryd yn yr hwn y cyflawnai ei waith: "gyda phob gostyngeiddrwydd" (19). (3) Atgofia hwynt, hefyd, o'r llwyredd a'r hwn yr ymdaflodd i'w waith (20, 21, 25—27). (4) Gwelwn y meddiennid ef eisioes gan gryn fesur o bryder parthed ei diogelwch yn y dyfodol agos (22, 23), ond na dychrynid mohonno oblegid hyn (24). (5) Pryderai, hefyd, parthed dyfodol yr Eglwys yn Ephesus. Deuai'r peril o ddau gyfeiriad—(*a*) oddiwrth y "bleiddiaid" tu allan i'r Eglwys ac (*b*) oddiwrth "wŷr yn llefaru pethau gwyrdraws" tu fewn i'r Eglwys. Wrth y cyntaf, golygai'r Apostol lynion agored yr Efengyl; wrth yr ail, y rhai yn yr Eglwys a wyrdroent yr Efengyl a bregethid gan Paul, neu a'i camddarlunient. (6 Yn adn. 31—35, amlygir inni ysbryd hunan-aberthol Paul; a'r (7) serch angherddol a deimlid tuag ato gan yr henuriaid (36—38).

Gwers VIII.—Y Gweddill o'r Daith a'i Diwedd (Actau XXI, 1—17.)

Sylwer ar gwrs y gweddill o'r daith: Miletus, ynysoedd Coos a Rhodes, Patara—tref ar lan y mor yn Lycia, heibio i Cyprus (yr ynys ar eu haswy), Tyrus, Phenice, Ptolemais, Cesarea, Ierusalem. Sylwer yn fanwl ar afleoedd y lleoedd uchod ar y ddarlen. Digwyddiadau'r daith: (1) Dod o hyd i rai disgyblion yn Nhyrus; hwythau yn ei rybuddio i ochelyd mynd i Ierusalem. Yr oedd y ffyllfa yno, yn debygol, yn

wybyddus i'r Tyriaid. (2) Yn Cesarea, a i dy Phylip "yr Efengylwr." Tra fu yn nhy Phylip, rhybuddiwyd ef gan broffwyd o Iudea o'r enw Agabus o'r perigl oedd yn ei aros yn y brif-ddinas (ad. 11). Y disgyblion, ar ol clywed hyn, yn deisyf arno "nad elai ef i fyny i Ierusalem." Sylwer ar ateb Paul (13). (3) Ar ol methu o honynt a'i ddarbwyllo, gadawsant lonydd iddo, gan ddywedyd, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." (4) Oddiyma aethant ymlaen ar eu taith tua Ierusalem; ac aeth rhai o'r disgyblion a oedd yn Ceserea gyda hwynt. Wedi dyfod o honynt i Ierusalem, cawsant dderbyniad gwresog gan y brodyr; a'r dydd dilynol, daeth yr henuriaid ynghyd i dy Iago. Brawd Iesu oedd Iago, a blaenor yr Eglwys yn Ierusalem. Terfynodd y drydedd daith yn Ierusalem; lluddiwyd ef rhag dychwelyd i Antioch—man cychwyn y daith.

NODYN: Ni wneir un sylw yma o "Cymeriadau'r Hen Destament"; mynned pob athro y llyfryn.

Safon II —Hanes Iesu hyd Ddeuddeg Oed.

Gwers III.—Ymweliad Iesu a Ierusalem.

Sylwer yn fanwl ar fanylion yr hanes, a thrysored y plant ei brif ffeithiau ar y cof. Nid oes ond ychydig o hono a ofyn un eglurhad. *Pasc*: Un o wyliau mawr yr Iddewon, a gynhelid yn y gwanwyn, yn y mis cyntaf o'r flwyddyn Iddewig, cysylltid a hi ddau amcan: (1) gwyl cynhaeaf (adeg dechreu cynhaeafu'r yd); (2) gwyl goffa am waredigaeth a gawsant pan oeddynt mewn caethiwed yn yr Aifft. Gweler yr hanes yn Deut. XVI.

Deuddeg oed: dyna'r oedran y caniateid i blant fynd i'r wyl gyntaf. *Gorffen y dyddiau*: oddeutu wythnos. Ai pobl y wlad i fyny i'r brif-ddinas yn finteioedd, a dychwelent yn yr un modd. *Taith diwrnod*: yr oedd y pellter rhwng Nazareth a Ierusalem yn 80 milltir, a chymerai'r daith dri diwrnod. Gwneir tri pheth yn amlwg gan yr hanes: (1) adnabyddiaeth Iesu o gynnwys Ysgrythurau ei genedl——llyfrau'r Hen Destament; (2) Ei awydd am wybodaeth; a'i (3) ufudd-dod i'w rieni.

DIWEDD.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

PWYLLGOR HYDREF, 1926.

CYNHALIWYD hwn yn y Graig, Trebanos, fore Iau, Medi 30, o dan lywyddiaeth Mr. D. Tysul Davies, Aberdar. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol. Cafwyd ar ddeall yn y Pwyllgor blynyddol fod £102 o ol-ddyled ar "YR YMOFYNNYDD." Dywedodd y Golygydd fod £28 wedi ei dderbyn tuag at ddileu y ddyled honno. Ar awgrym y Llywydd pasiwyd en bod yn gofyn i'r Parch. T. O. Williams, i ymgymeryd a'r gwaith o gasglu gweddill o'r arian. Cafwyd ar ddeall fod "YR YMOFYNNYDD" yn argoeli talu drosto ei hun.

Mater y cymerwyd cryn ddiddordeb ynddo oedd "Y Gronfa" er cynorthwyo pobl ieuainc i'r weinidogaeth. Amlygwyd teimlad cryf am gael cronfa deilwng a phasiwyd ein bod yn apelio at Gymdeithas Eglwysi Morganwg ar iddynt gydweithredu a ni yn yr ymdrech.

Trefnwyd fod pwyllgor neillduol yn cael ei wneuthur i fyny o gynrychiolwyr o'r ddwy Gymdeithas i gwrdd i ymdrin a'r mater fel ag i

allu gosod rhyw gynllun ymarferol ger bron Pwyllgor y Pasc. Y Pwyllgor hwn i gyfarfod yng Nghaerfyrddin a Mr. Tysul Davies i'w alw ynghyd. Pasiwyd fod y rhai canlynol i gynrychioli ein Cymdeithas ni ar y Pwyllgor hwnnw. Y Llywydd ; Mri. D. H. Morgan, Trebanos ; Lewis Edwards, Cefncoed ; Josiah R. Jones, Y.H., Garthowen a W. S. Jones, M.A., Aberystwyth. Trefnwyd hefyd fod y Llywydd a'r Parch. D. G. Rees i ymddangos gerbron Cymdeithas Eglwysi Morganwg i apelio am eu cynorthwy.

Cafwyd ar ddeall fod yna un dyn ieuanc arall am gyflwyno ei hun i ymbaratoi gogyfer a'r weinidogaeth. Pasiwyd ein bod yn rhoddi pob cefnogaeth iddo ac fod yr ysgrifennydd i egluro iddo y cwrs a dybiai'r Pwyllgor yn oreu iddo.

Pasiwyd yn unfrydol a phendant fod Cyfarfod y bore yn yr oll o gyfarfodydd y Gymdeithas o hyn allan i fod yn Bwyllgorau i ymwneud a materion perthynol a'r Eglwysi. Yr oedd yn wir flin gan y Pwyllgor gael ar ddeall mae afiechyd oedd yn cyfrif am absenoldeb y Parch. Lewis Williams o'r cyrddau ac ar gynhygiad y Llywydd pasiwyd pleidlais wresog o gydymdeimlad ag ef gan ddymuno iddo adferiad buan.

Gadawyd trefnu lle cynnal y Cyfarfodydd nesaf i'r Ysgrifennydd.

E.O.J.

'SLAWER DYDD.

"Ni ŵyr y dô sy'n codi ddim o'i geni, machgen i."

Dyma eiriau hen wr gyfarfum pwy ddydd, ie, yr oedd yn ddarn o 'slawer dydd. Bu'n medi yn Sir Henffordd ac edrychai'n siomedig dros y clawdd gan ysgwyd ei ben a chymerai hoe yn amlach na'r hoe hogi brin gynt.

"Ie," meddwn am na wyddwn beth i'w ddywedyd. Yr oedd calon hen "fforman y fedel" yn curo yn ei fynwes gyfyng. Pesychodd yn hir ond wedi rhoi'i bwys ar y clawdd daeth yr hen amser yn ol. Anghofiodd fi oherwydd yr oedd yr hen gyfoedion wedi dyfod megis i ben y dalar ato fel cynt.

"Son yr oeddem am 'slawer dydd," meddai wrtho'i hun, "ac amser rhagorol ydoedd ar waethaf popeth. Cofiaf am haf sych. Nid oedd llafur ar y fron acw yn droedfedd o uchder a minnau'n ei *chytio* hi, tebig a byddwn yn tynnu bonblu. Dro arall yr oedd y mwyafrif ohonom yn medi yn y cae wrth gefn y tŷ ond, mynnai meistr i chwech ohonom—y chwech medelwr goreu fynd i "*ddwrn fedi'r gwenith.*" Chwerddais ond yr oedd gwên wawdlyd yr hen wr yn gerydd digon llym arnaf. 'Welsoch chi ddwrn fedi erioed ?" gofynnai.

Ymhen tipyn ai' ddechreuodd. "Cofiaf yn dda am dorri pen medi," meddai. "Dyna noson ! Prin oedd yr hoe hogi drwy'r dydd ac yr oedd y fedel fawr ar ei goreu a minnau'n fforman, a chyn machlud o'r haul yr oedd y cwm yn daspedain gan floedd y cynhaeaf yn awydd fod un fferm wedi torri pen nedi." "Wyddoch chi rywbeth am dorri pen medi ?" gofynnai'r hen wr yn dosturiol. Ni cheisiais esbonio a chymerodd yn ganiataol mai iurtyn oeddwn. Daeth ton o foddhad dros ei wyneb o feddwl am dorri'r pen medi 'slawer dydd.

"Yng Nghaepant," meddai, "yr oeddwn yn medi, medi shriprys. Yr oedd y lleli olaf gennym a phawb yn eu helen. Doe un ar ol y llall i ben tir, a yn y diwedd wele'r seldren olaf ar e' thorri a minnau fel fforman yn plethu'r gaseg fedi. Dro hir buom yn bww crymanau ati ond wele grymai yn torri'r gaseg a minnau'n

cydio ynddi gan redeg am fy mywyd. Erbyn i mi gyrraedd iet y clos. Yr oeddwn wedi rhedeg i ganol "cawod dyrfe." Yr oedd y dwr yn pistyllo o bob stên a bwced a minnau'n rhedeg rhag gwlychu'r gaseg a chyrhaeddais y tŷ yn ddiogel. Ni phrofais gystal poten pen fedi byth cynt nac wedyn."

Rhwydd canfod fod y boten yn dal ei blas am o leiaf ddeugain mlynedd. "Ie Deio," meddwn innau "ond paham hyn i gyd." Crafai Deio'i ben ond ni ddoe yr un ateb. Ni wyddai. Ae yn ei flaen gan feddwl am dorri'r pen medi, am y gaseg ac am y boten.

Nid oeddwn fawr callach fod Deio'n crafu'i ben a meddyliwn a mi fy hun sut yr oedd yr hen arferion wedi dal yn y tir heb neb yn ceisio'u hesbonio. Aeth Deio dros y golwg yn y tro ond arosai'r gaseg yn fy meddwl er ei bod yn "gweryru" dan y llofft ers tro. O feddwl doe'r cyfan yn gliriach. Cofiwn am y blaidd "yn yr yd" yn yr Almaen, am y ceiliog, yr ysgyfarnog, yr afr, y cwâl, y cadno, yr hwch a'r gaseg mewn lleoedd eraill.

Yr oedd yna hen draddodiad fod ysbryd yn yr yd—y corn spirit. Wedi torri'r seldren olaf ffoai'r ysbryd i'r medelwr a'i torrai, a sicr fod yna adeg wedi bod pan leddid y medelwr gan ei gyd-fedelwyr ar y maes. Nid oedd y gaseg fedi ond personoli ysbryd yr yd a theflid y crymanau ati gan oes ddiweddarach yn ddifeddwl ddigon ond sicr yr amcan gynt oedd ceisio atal yr ysbryd rhag mynd i'r medelwr. Rialtwch pen medi ar y llaw arall oedd ceisio gwlychu'r gaseg a dim ond hynny i oes ddiweddar. 'Slawer dydd canfyddwyd yr angen o law i dyfu ac addfedu'r yd, a chredid o wlychu'r gaseg fedi y buasai hyn yn *sicrhau* digon o law ar gyfair y flwyddyn ddilynol. Crogid y gaseg fedi dan y llofft er cadw'r "ysbryd" yn fyw. Nid yw gwledd y cynhaeaf a "photen pen fedi" ond yn awgrymu fod perigl bwyta'r yd hyd nes y dyhuddid yr ysbryd a chynnyg ysgub y blaenffrwyth i'r pwerau oedd yno'n llywodraethu ar y cynhaeaf.

Y mae'r hen arferion yn marw o'r tir ac ni ŵyr nemor un heddiw y ffordd i "daflu'i gryman" ac ni wneir ond agor llygaid gwirion wrth son am "gaseg fedi" a "gwlychu'r gaseg" a "photen pen fedi" a myn fy nghalon innau adleisio geiriau Deio,—

"*Ni wyr y do sy'n codi ddim o'i geni.*"

PRIODASAU.

Hydref 2, ym Mrondeifi, gan yr Hybarch R. C. Jones yn cael ei gynorthwyo gan y Gweinidog (ac o flaen y cofrestrydd Mr. Enoch Davies) unwyd mewn glan briodas Mr. Tudor Davies, 7, Mill Street a Miss M. A. Davies, 4, Mill Street, Lampeter. Hir a glân a fo'r daith a dedwydd hefyd.

Hydref 9, 1926, yng Nghapel y Graig, Llandysul, gan y Parch. T. Arthur Thomas, unwyd mewn glan briodas Mr. Richard James Jones Gilfachwith a Miss Lizzie Jones, Blaencwmerwydd, Llandysul. Pob bendith a'u dilyno.

Yng Nghapelygroes, ar y 12fed o Hydref, unwyd mewn priodas Mr. Edgar James Coward, Dyffryn, Amanford, a Miss Anne Evans, Pwllglas, plwyf Llanbedr. Dymunwn bob llwyddiant a hawddfyd i'r par ieuanc.

MARWGOFION.

Awst 23, yn 67 mlwydd oed, Mr. John Thomas, Glanyrafon. Ni chafodd yr ymadawedig ei gystuddio ond am fyr amser, er mai cyffredin fu ei iechyd am flynyddoedd. Yr oedd yn weithiwr meddylgar a goleuedig, ac yr oedd iddo fedr mwy na'r cyffredin wrth ddilyn ei alwedigaeth, yn neilldduol fel garddwr. Buasai yn ymhyfrydu yn ei waith, ac yr oedd ol ei law gyfarwydd ar bopeth a wnai. Claddwyd ef y dydd Iau dilynol ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Cennech Davies (A), ac E. O. Jenkins. Gadawodd mewn galar o'i golli, briod a dau o blant, ynghyd a pherthynasau eraill.

Medi 7, yn 70 mlwydd oed, bu farw John Evans, dilledydd, 113-115, Commercial Road, Llundain, yn ddisymwth ddigon. Mab ydoedd i'r diweddar John a Mary Evans, Tower Hill, Llanybyther. Prentisiwyd ef gyda'i ewythr yn Llanelly ac nid oes ond ychydig iawn yn gwybod ei fod yno yn ystod yr erlid ffyrnig a barbaraidd a fu ar y diweddar Barch. John Davies, Tanycoed gan rith gristionogion y lle hwnnw. Yr oedd yn ffyddlon i'w egwyddor a phan ffoes Mr. Davies dros y muriau am ei fywyd fe'i derbyniwyd gan freichiau agored John Evans. O Lanelli aeth ar ei ffordd i Lundain a bu yno am 35 mlynedd. Nid oedd iddo iechyd cryf ers tro byd bellach ond yr oedd wrth ei waith y dydd cyn ei farw. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol (yr angladd yn anghyhoedd) ym mynwent Marlebone Cemetery, East Finchley, pryd y gwasanaethodd y Parch. D. C. Jones, Eglwys Boro' Road, Llundain. Gadawodd i alaru ar ei ol ddau fab, dau frawd a phum chwaer. Dyn tawel a mwyn ydoedd o galon garedig; ac iddo air da gan gylch helaeth ei gydnabod.

Medi 22, ar ol cystudd byr a chaled, Hannah Mary, baban Evan a Mally Davies, Glanrafon Arms, Talgarreg, yn 11 mis oed. Caled oedd colli un fechan ag oedd wedi ennill eu serch mor llwyr ac hyderwn y cant nerth i ddal yr ergyd. Sonir am "Nerth yn ol y dydd"; gobeithiwn y cant wybod am y nerth hwnnw. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym Mwlchyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Cuddiwyd y bedd bychan a phleth-dorchau a blodau-arwydd o gydymdeimlad perthynasau a chyfeillion.

Medi 25, yn Llandudoch, Evan Davies, gynt o Cil-rhiwe, Capel Dewi, Llandysul, a brawd i'r diweddar Barch. W. E. Davies, Cribyn yn 64 oed. Dechreuodd waelu tua chanol yr haf a gwaelu'n raddol a wnaeth hyd y dydd uchod pryd yr ehedodd ei ysbryd at yr hwn ai rhoes. Dygwyd ei gorff adref i fynwent Llwynrhydowen a chladdwyd ef ym medd ei frawd y bore Mawrth dilynol pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Daeth nifer luosog o'i hen gyfeillion a chyfeillion y teulu ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo.

Medi 27, yn 76 mlwydd oed, Margaret Davies, Glantrenisaf, gerllaw Llanybyther. Yr oedd yn chwaer-yng-nghyfraith i Mr. Josiah Price, gof, o'r lle uchod, a chydag ef yr oedd yn cartrefu er's amryw o flynyddau. Bu mewn gwasanaeth mewn ffermdai o gylch y lle hyd nes i henaint a llesgedd ei gorfodi i ymneilldduo. Yr oedd mor llafurus a ffyddlon yn ei gwaith fel yr oedd gan y rhai ag y bu yn eu gwasanaeth ymddiried hollol ynddi. Yr oedd diniweidrwydd a didwylledd yn nodweddion amlwg ynddi; ac wedi ennill parch mawr iddi. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Alltyblaca. Wedi iddi gael ei chyfyngu gan wendid corff i'w chartref, a methu dod i'r gwas-

anaethau ar y Sul, parhaodd i gyfrannu tuag at y weinidogaeth hyd y diwedd. Claddwyd yn Alltyblaca. Oherwydd afiechyd y gweinidog cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. D. James, Rhydybont, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. C. Griffiths, Aberduar, a D. Morris Jones, Capel Nonni, a Mr. D. C. Jones, Goitre, Llanllwni. Gadawodd chwaer, brawd-yng-nghyfraith, a neiaint mewn galar.

Medi 28, yn 38 mlwydd oed, Mrs. Alice Maud Evans, gynt o Ebenezer Cottage, Llandysul. Wedi ymbriodi bu'r ymadawedig fyw yn Sciwen a Thenby. Aeth rhyw dri mis yn ol i West Wales Sanatorium, Llanybyther lle y bu farw. Gwraig ieuanc fwynaidd a didramgwydd oedd yr ymadawedig ac iddi air da gan bawb a'i hadwaenai. Y dydd Gwener dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mynwent Penybont, Llandysul. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Ficer a'r Parch. R. Morris. Gadawodd yr ymadawedig briod a dau blentyn mewn galar mawr o'i cholli.

Medi 31, yn 48 mlwydd oed, bu farw Ellen Davies, Fisher's Arms, Cellan, ger Llanbedr, wedi dihoeni'n hir am yn agos i ddeng mlynedd o'r ddarfodedigaeth. Yr oedd wedi dihoeni mor hir nes gweddio ohoni am ei gollwng cyn y diwedd. Benyw gywir a siriol ydoedd, yn edrych bob amser ar ochr olau bywyd ac iddi air da am ei chymwynasgarwch a'i hunplygrwydd. Claddwyd hi y dydd Gwener dilynol ym mynwent hen Eglwys Caeronnen. Ei chorff hi oedd y cyntaf i gael ei ddwyn i'r Capel Newydd, capel yr hiraethodd gymaint am ei weld ond rywsut nid oedd galon ynddi i ymweled ag ef oherwydd teimlai nad oedd y diwedd ymhell. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Mr. Jones, Capel Erw a Mr. Corris Davies, Llanbedr, ac yn y capel a glan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, ei gweinidog. Gadawodd frawd a chwiorydd, ac un ohonynt yn cyd-fyw a hi ac wedi gweini'n dyner arni, neiaint a nith oedd fel plant iddi heblaw perthynasau eraill i wylo o'i cholli hi.

Hydref 2, yn 71 mlwydd oed, Mr. Titus Thomas, Aberythan, gynt o Rhosdafarn, Llandysul. Mwynhaodd yr ymadawedig iechyd da drwy gydol ei oes hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Yr oedd yn wr adnabyddus mewn cylch helaeth yn yr ardal ac ar gyfrif llawer o nodweddion berthynai iddo, yr oedd iddo barch mawr gan bawb a'i hadwaenai. Gadawodd mewn galar o'i golli, weddw ac un ferch heblaw perthynasau eraill. Y dydd Mercher dilynol claddwyd ei ran farwol ym mynwent Pantydefaid; gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Tom Davies, Horeb ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Hydref 18, Jane, annwyl briod John Davies, Criborfawr, Llandysul, yn 70 oed. Merch ydoedd i'r diweddar David Jones, Castell, Pencarreg; felly hannai o un o hen deuluoedd mwyaf ffyddlon Capelygroes. Yr oedd Mrs. Davies yn fenyw ragorol iawn. Yr oedd o anian ac ysbryd crefyddol, a hyd y gallodd dilynodd y gwasanaethau'n ffyddlon yn Llwynrhydowen a chymerodd ofal mawr i godi'r plant yn ffyddlon i'r achos. Yr oedd achos crefydd yn agos iawn at ei chalon ac er fod afiechyd ers tro maith wedi ei lludias i bresenoli ei hun yn y cwrdd fel cynt daliodd ei diddordeb yn yr achos hyd y diwedd. Fel cymydoges perchid hi yn fawr ar gyfrif ei sirioldeb, ei hysbryd mwynaidd a'i pharodrwydd i wneud cymwynas pan fyddai caledi. Ond i'w gwerthfawrogi'n iawn a'i deall yn weddol gyflawn rhaid oedd ei gweld yn ei chartref. Er mor gyflawn ac ardderchog oedd mewn cyfeiriadau a chylchoedd eraill fel priod a mam y rhagorai. Bu'n gymar gyflawn a ffyddlawn ac yn fam ragorol iawn. Ar yr aelwyd yr oedd fel brenhines; yr oedd ei gair yn ddeddf gan bawb a gallesid meddwl mae hyfrydwch pennaf ei phlant oedd ei boddio hi. Bu'r teulu i gyd yn rhyfeddol o ffyddlon iddi yn ei chystudd maith a

blin a chredwn fod hynny wedi bod yn help mawr iddi. Claddwyd y Gwener dilynol yn Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, D. Evans, Capelygroes, Glyn Edwards (B) a T. Arthur Thomas. Methodd y Parchn. Lewis Williams, Alltyblaca a T. O. Williams, M.A., Llanbedr fod yn bresennol. Yr oedd yr angladd yn un o'r rhai mwyaf a welwyd yn y gymydogaeth ers tro mawr. Dywedai'r angladd fod un fawr ei pharch wedi mynd. Hyderwn y caiff y priod, y plant, y brawd, wyrion a pherthynasau ereill nawdd y nef a nerth i gario eu croes yn ffyddlawn.

Trist yw'r dderwen yn yr hydref
Gyda'i dail yn grin ar lawr :
Tristach heddiw, rhaid cyfaddef,
Yw hen aelwyd Cribor Fawr.

Siriol fu tan heulwen cariad,
Ond daeth storm i darfu'r hedd ;
Llym y ddyrnod ; chwerw y profiad ;
Heddiw y mae'r fam mewn bedd.

Pwy na chofia'r wyneb siriol ?
Pwy na wyr ei golled nawr ?
Bla mae'r galon fawr obeithiol ?
Ble mae *enaid* Cribor Fawr ?

" *Wedi mynd*," medd drylliog galon ;
" *Nid ymhell*," medd hithau'n awr ;
" *A thra fyddwch byw yn union*
Nid af fi o Gribor Fawr."

NODION YR EGLWYSI.

CRIBYN.—Cynhaliwyd y Cwrdd Diolch nos Lun, y 25ain, a Parchn. Conwil Evans a T. Arthur Thomas yn pregethu i gynhulliad lluosog. Casglwyd fel arfer at y Gymdeithas Saesneg.

LLWYNRHYDOWEN A CHAPELYFADFA.—Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch am y cynhauaf yn y lleoedd uchod mos Fawrth a nos Fercher, Hydref 5 a 6, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Glyn Edwards, Brynhafod. Cafwyd cynulliadau a phregethau pwrpasol.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd y Cwrdd Diolch, Nos Iau, yr 28ain, y Parch. D. C. Griffiths (B.), Aberduar yn pregethu. Casglwyd at y Gymdeithas Saesneg.—Y mae Mr. a Mrs. Evans, Felinban, wedi anrhegu'r gynnulleidfa a dwy lusern hardd ar y pwlpud, fel coffa am eu teuluoedd o'r ddwy ochr a fu mewn cysylltiad a'r achos er ei dechreu. Diolchwn yn wresog iddynt am eu caredigrwydd. Goleuwyd hwy am y tro cyntaf nos y Cwrdd Diolch, a rhoddai eu goleu llachar foddlonrwydd cyffredinol.

APEL.

Ar gais y Gymdeithas apeliaf unwaith eto ac fe ddaw'r apel fel "*ceiniog ddrwg*" adref i glwydo ymhob rhifyn nes cael "Yr Ymofynnydd" yn ddiddyled. Anodd credu na cherir "Yr Ymofynnydd" gan ragor na phump ar hugain o'r cannoedd sy'n ei ddarllain. Y mae'r addewidion hyd yn hyn yn rhagorol ond da chwi dewch wrth yr ugeiniau os nad wrth y cannoedd i daflu hatling i'r drysorfa.

	£	s.	c.
Addewidion Medi a Hydref	29	1	0
T. Thomas, Ysw., Llandysul	5	0	0
"Carwr 'Yr Ymofynydd' " Llandysul	1	0	0
Y Parch. E. R. Dennis ...	1	1	0
	£36	2	0

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.